# Y CABINET DYDD MAWRTH, 24 TACHWEDD 2020

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Nia Jeffreys, Gareth Griffith, Dilwyn Morgan, Ioan Thomas, Gareth Thomas, Catrin Wager a Cemlyn Williams.

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6: Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg) a Bethan Griffith (
Eitem 7: Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth a Iaith), Llywela Owain (Uwch Ymgynghorydd Craffu a Iaith) a Dafydd Iwan (Cadeirydd Grŵp Strategol).
Eitem 8: Alwen Williams (Cyfarwyddwr Rhaglen) a Sioned Williams (Pennaeth Adran Economi a Chymuned).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datgan o fuddiant personol gan y Cynghorwyr Canlynol: Dyfrig Siencyn, Nia Jeffreys, Catrin Wager, Gareth Thomas, Dilwyn Morgan, Ioan Thomas a Cemlyn Williams gan fod eu plant neu wyrion yn derbyn cinio ysgol. Nid oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac felly roedd modd iddynt fod yn bresennol i'r eitem.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu

## 5. COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 3 TACHWEDD 2020

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Tachwedd 2020

fel rhai cywir.

## 6. PRIS CINIO YSGOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Cemlyn Williams

**PENDERFYNIAD**

Peidio â chynyddu pris cinio ysgolion cynradd, arbennig a dilynol yn Ionawr 2021 ac i gomisiynu'r Pennaeth Addysg i edrych ar bolisi hir dymor ar gyfer pris cinio ysgol ac i adrodd yn ôl i'r Cabinet.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn un byr ond yn cyfleu cyfrolau am flaenoriaethau'r Cyngor. Nodwyd fod costau darparu cinio wedi cynyddu yn 2020/21, ac er mwyn cwrdd ar gostau hynny byddai angen codi pris i £2.60 sydd yn gynnydd o 4%. Tynnwyd sylw ar atodiad 1 a oedd yn cymharu pris cinio ysgol Gwynedd a gweddill Cymru gan amlygu fod Gwynedd y 5ed sir uchaf o ran cost cinio ysgol.

Mynegwyd os na fydd pris cinio ysgol yn codi y bydd pwysau ychwanegol ar yr adran addysg i gyllido'r bwlch ariannol. Er hyn, amlygwyd yr heriau sydd wedi wynebu teuluoedd dros y misoedd diwethaf ynghyd a blaenoriaeth y Cyngor i leihau anghydraddoldeb.

Mynegwyd fod yr adroddiad hwn bellach yn cael ei gyflwyno yn flynyddol. Nodwyd yr angen i fod yn edrych ar y mater yn yr hir dymor a bod gwaith pellach angen ei wneud i edrych ar bris cinio ysgol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Croesawyd yr adroddiad gan nodi fod y penderfyniad i beidio codi'r pris yn un i'r groesawu. Nodwyd tristwch fod targed incwm yn cael ei roi ar brydau ysgol pan mae 1 ymhob 3 plentyn yn byw mewn tlodi. Pwysleisiwyd i rai plant mai dyma'r unig bryd cynnes mae rhai plant yn ei dderbyn mewn diwrnod.
- Nodwyd yr angen i edrych ar yr hir dymor a nodwyd efallai fod angen mynd gam ymhellach ac i anelu at y deheuad o roi cinio am ddim i bob plentyn ysgol.
- Mynegwyd fod nifer o blant yn gymwys am ginio ysgol am ddim gan nodi efallai fod y broses yn rhwystr i rai. Amlygwyd yr angen i hyrwyddo cinio am ddim. Tynnwyd sylw ar drefniadau cinio am ddim gan nodi fod gwaith pellach angen ei wneud i sicrhau fod pawb sydd yn gymwys yn ei dderbyn.
- Nodwyd y buasai yn braf cynnig cinio am ddim i bawb. Ond rhaid ystyried cynlluniau hir dymor ar gyfer y dyfodol.
- Mynegwyd fod gan yr adran hyblygrwydd ar gyfer eleni werth symud ymlaen ond fod angen edrych ar y gyllideb os yn edrych ar opsiynau.

## 7. HUNANIAITH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd am angen i wneud gwaith pellach ar ystyried opsiynau posib yn y dyfodol ar gyfer Hunaniaith - Menter Iaith Gwynedd.

Sefydlu tasglu o swyddogion y Cyngor i adnabod y camau angenrheidiol sydd angen eu dilyn i greu achos busnes cadarn ar gyfer yr opsiynau posib.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Gymraeg yn agos iawn at galon yr aelod Cabinet. Mynegwyd fod Hunaniaith yn gwneud gwaith arbennig o dda yn gwarchod yr iaith ac mae'r Siarter Iaith wedi amlygu'r gwaith da sydd wedi ei wneud. Pwysleisiwyd bellach fod angen ail edrych ar y ffocws gan symud o weithio yn strategol i weithio o fewn y gymuned.

Nodwyd fod Grŵp Strategol wedi bod yn edrych ar y sefyllfa ac wedi comisiynu cwmni Iaith i fwrw ymlaen a'r gwaith o adolygu gwaith Hunaniaith. Mynegwyd fod yr adroddiad y Cwmni yn ddiddorol a chyffroes ac ai fod yn cydnabod y gwaith da sydd wedi ei wneud. Ychwanegwyd fod yr adroddiad yn rhoi Sylfaen gadarn i symud ymlaen ac yn argymell creu tasglu fel bod modd trafod a chynllunio gwaith i symud ymlaen ac i weithio yn effeithiol ac effeithlon.

Ychwanegodd Cadeirydd y Grŵp Strategol fod adroddiad y Cwmni Iaith yn un cynhwysfawr a chytbwys ac amlygwyd y tri opsiwn sydd yn yr adroddiad. Nodwyd cefnogaeth i opsiwn 3 sef i greu endid annibynnol. Esboniwyd fod oblygiadau ariannol a staffio i hyn. Nodwyd yr angen i symud ymlaen a drwy hyn leihau pwysau ar y Cyngor ynghyd a chyfle i ychwanegu arian cwbl angenrheidiol fel bod modd i'r mudiad ledaeni i weithio o fewn y cymunedau, Pwysleisiwyd yr angen am amserlen dynn i'r tasglu fel bod gwaith yn symud ymlaen.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd yr angen i fenter iaith fod yn gweithio o fen y gymuned ac i fod yn gynaliadwy i barhau a'r gwaith da mae Hunaniaith yn ei wneud. Pwysleiswyd mai cyfle i adeiladu ar y gwaith da yw hwn ac nid i gael gwared â Hunaniaith.
- Amlygwyd trefn gyllido Hunaniaith gyd 70% o'r gyllideb yn dod gan y Llywodraeth a'r 30% gan Gyngor Gwynedd. Gan fod y gyllideb gan y Llywodraeth yn grant ei bod yn anodd ar hyn o bryd i gynllunio i'r dyfodol.
- Mynegwyd cefnogaeth i edrych ar y sefyllfa gan nodi ei bod yn amserol i symud ymlaen ac i roi cyfle i Hunaniaith i sefyll ar ei draed ei hun.
- Nodwyd cefnogaeth i greu endid bychan o fewn cymunedol. Nodwyd blynyddoedd yn ôl ei bod wedi bod yn syniad da i'r menter iaith fod o fewn y Cyngor ond bellach fod angen esblygu.
- Diolchwyd i'r gwaith caled mae Tîm Hunaniaith yn ei wneud.
- Pwysleiswyd fod llawer o waith angen ei wneud cyn gwneud y penderfyniad ar ba opsiwn ond angen ystyried y ffordd orau ymlaen.

- Pwysleiswyd y gwaith da sydd wedi ei wneud ond angen edrych ar esiamplau da o waith mentrau iaith eraill ac i symud ymlaen o fewn amserlen dynn.

## 8. CYTUNDEB TERFYNOL AR GYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn.

**PENDERFYNIAD**

- Cadarnhawyd y Cynllun Busnes Cyffredinol yn ffurfiol ac yn argymell i'r Cyngor ei gymeradwyo fel y ddogfen sy'n gosod y trefniadau ar gyfer cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru fel sail ar gyfer ymrwymo i'r Cytundeb Terfynol a derbyn y Llythyr Cynnig Grant gyda Llywodraethau'r DU a Chymru.
- Cadarnhawyd y darpariaethau yng Nghytundeb Llywodraethu 2 sy'n ymwneud â swyddogaethau gweithredol yn ffurfiol ac yn argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r darpariaethau sy'n ymwneud â swyddogaethau anweithredol a'i fod (y Cabinet) yn benodol yn mabwysiadu'r dirprwyaethau a'r Cylch Gorchwyl yn "Cytundeb Llywodraethu 2: Atodiad 1" ohono fel sail ar gyfer cwblhau'r Cytundeb Terfynol a derbyn y Llythyr Cynnig Grant gyda Llywodraethau'r DU a Chymru.
- Yn ddarostyngedig i gwblhau Cytundeb Llywodraethu 2, bod Cyngor Gwynedd yn cytuno i weithredu fel yr Awdurdod Lletya a'r Corff Atebol ac yn llofnodi'r llythyr Cynnig Cyllid Grant ar ran y Partneriaid drwy law'r Prif Swyddog Cyllid.
- Cadarnhawyd ffurfiol ac yn argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r dull a ddefnyddir i gyfrifo cost benthyca sydd ei angen mewn egwyddor i hwyluso'r llif arian negyddol ar gyfer y Cynllun Twf, ac i gynnwys darpariaeth o fewn Cyllideb y Cyngor i dalu'r cyfraniad hwn a'r cyfraniadau craidd ac atodol sydd wedi'u sefydlu fel sydd wedi'i nodi yn GA2
- Bod y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151, yn derbyn awdurdod dirprwyedig i gytuno ar fân newidiadau i'r dogfennau gyda'r Partneriaid fel sydd angen i gwblhau'r cytundeb.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gnan odi fod yr adroddiad yn benllanw 3 blynedd o waith cael ar y Cynllun Twf. Diolchwyd i'r tîm rhaglen am weithio yn galed i greu'r dogfennau a'r cynlluniau busnes er mwyn cwblhau'r Cytundeb Terfynol.

Amlygodd y Rheolwr Rhaglen prif nod y Cynllun Twf sef i adeiladu economi bywiog, cynaliadwy a gwydn yn y Gogledd. Mynegwyd y bydd y dulliau gweithredu yn cyflawni twf mewn ffordd gynhwysol gynaliadwy y gellir eu hymestyn unol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Pwysleisiwyd y ffynonellau ariannu a oedd yn cynnwys buddsoddiad gan y Sector Breifat a'r Sector Gyhoeddus.

Tynnwyd sylw ar y buddion rhanbarthol o Gynllun Twf a oedd yn cynnwys twf mewn ffyniant rhanbarthol a chreu swyddi o ansawdd gwell ar gyfer y farchnad lafur. Pwysleisiwyd y buddion a fydd i Wynedd yn benodol a oedd yn cynnwys gwella cysylltedd digidol ar gyfer busnesau, trigolion ac ymwelwyr, mynediad at ymchwil arloesol a chefnogaeth gyda thechnegau ffermio cynaliadwy, buddsoddiad £20m yn isadeiledd safle Trawsfynydd a chyfleodd i ddatblygu safleoedd strategol fel rhan o'r rhaglen Tir ac Eiddo hirdymor.

Amlygwyd y Cynllun Busnes Cyffredinol gan bwysleisio ei fod yn gosod allan y trefniadau ar gyfer gweithredu Cynllun Twf Gogledd Cymru, gan gynnwys trosolwg o'r rhaglenni a phrosiectau er mwyn cael cymeradwyaeth pob partner i'r gofynion Ariannol ar gyfer gweithredu'r cynllun. Ychwanegwyd fod y Swyddfa Rhaglen wedi ymgynghori gyda Llywodraeth y Du a Chymru drwy'r broes o ddatblygu'r dogfennau.

O ran y Cytundeb Terfynol, nodwyd ei fod yn gytundeb a grëwyd ar y cyd rhwng y Bwrdd Uchelgais a'r ddwy Lywodraeth. Pwysleisiwyd mai drafft sydd ar hyn o bryd a'i fod yn parhau i gael ei addasu dros yw wythnosau nesaf. Nodwyd fod y swyddfa raglen wedi bod yn gweithio yn ddiwyd ar y dogfennau perthnasol, ac y bydd y cytundeb Terfynol yn cael ei ddiogelu ar sail Achos Busnes Portffolio ac 5 Achos Busnes Rhaglen.

Nododd y Pennaeth Cyfreithiol fod Cytundeb Llywodraethu 2 yn mynd a'r bartneriaeth i'r cyfnod gweithredu ar gyfer y Cynllun Twf. Ychwanegwyd fod y parhau a'r model llywodraethu a fabwysiadwyd yn GA1, sef Cydbwyllgor a gefnogir gan awdurdod lletya ac yn darparu ar gyfer ymrwymiadau a chyfrifoldebau'r Partneriaid a'r bartneriaeth. Tynnwyd sylw a threfniadau gan amlygu y bydd y gwaith craffu yn cael ei rannu rhwng y 6 awdurdod lleol i ysgwyddo'r baich.

Mynegodd y Pennaeth cyllid bwysigrwydd GA2 yn hanfodol ar gyfer corf atebol. Amlinellwyd yr Incwm a Gwariant gan nodi fod y proffil gwario dros tua 6 mlynedd, ac ariannu'r llywodraethau yn gyfartal dros 15 mlynedd, felly y bydd y gost o ariannu'r llif arian negyddol. Er hyn, nodwyd fod yr awdurdod lletya am hwyluso hynny i'r partneriaid ac wedi gwneud rhagdybiaethau rhesymol cyn lledaenu'r gost yn gyfartal dros 15 mlynedd y cynllun, er mwyn cynnig cost flynyddol gyraeddadwy. Ategwyd y bydd hyn yn ymrwymo'r partneriaid i'r Cynllun Twf am 15 mlynedd.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd am y gwaith a chroesawyd yr arian ar gyfer Parc Glyn Cegin ym Mangor. Holwyd o ran cysylltiad we ffibr i gwmnïau os bydd yn cael ei ddatblygu ar gyfer holl drigolion Gwynedd. Mynegwyd fod gwaith mapio wedi ei wneud i weld ble nad oes ffibr ar gael gan nodi bydd yr ardaloedd yma yn cael ei dargedu gan y cynllun twf.
- Holwyd o ran cael cyfraniad gan y ddwy Lywodraeth ac os yw hyn yn golygu fod y cynllun yn atebol i'r ddwy Lywodraeth. Nodwyd y bydd ond fod y cynllun yn ogystal yn atebol i holl gynghorau yn rhanbarth ac i etholwyr. Pwysleisiwyd mai atebolrwydd trigolion y sir fydd yn cael y flaenoriaeth.
- Croesawyd yr adroddiad gan y bydd cyfle i adeiladu economi gryfach a

bod cyfle i greu swyddi gwerth uchel a fydd yn gwbl angenrheidiol i bobl ifanc Gwynedd.

- Nodwyd mai dyma'r tro cyntaf i awdurdodau i wirfoddoli gweithio gyda'i gilydd i greu rhywbeth er budd y trigolion. Diolchwyd i Bennaeth Cyllid a'r Swyddog Monitro am eu gwaith.

Dechreuodd y cyfarfod am 13:00 a daeth i ben am 14:50

______________________________

**CADEIRYDD**